THE CROWN ESTATE

# Ystad y Goron yn cyhoeddi ardaloedd chwilio i gefnogi twf gwynt arnofiol yn y Môr Celtaidd

Heddiw, mewn cam mawr ymlaen i gefnogi uchelgeisiau sero net y DU, mae Ystad y Goron wedi nodi pum 'Ardal Chwilio' eang ar gyfer datblygu gwynt arnofiol ar y môr yn y Môr Celtaidd – rhanbarth sy'n llawn adnoddau naturiol, gan gynnwys adnodd gwynt o'r radd flaenaf y gellir ei ddatblygu â thyrbinau arnofiol. Dyma garreg filltir sylweddol sy'n darparu'r sylfaen ar gyfer adeiladu capasiti uwch yn y dyfodol, gan helpu'r DU i gyrraedd ei thargedau ynni adnewyddadwy a sbarduno datblygiad economaidd.

Mae'r ardaloedd hyn wedi cael eu nodi yn dilyn dadansoddi technegol ac ymgysylltu helaeth rhwng Ystad y Goron, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag asiantaethau allweddol a rhanddeiliaid arbenigol. Bydd adborth pellach gan randdeiliaid a'r farchnad yn cael ei ddefnyddio i fireinio'r Ardaloedd Chwilio yn ardaloedd datblygu prosiect, ac yn yr ardaloedd hyn y bydd y genhedlaeth gyntaf o ffermydd gwynt arnofiol ar raddfa fasnachol yn cael eu hadeiladu o bosibl. Bydd yr ardaloedd datblygu prosiect hyn yn cael eu cynnig i'r farchnad drwy dendr cystadleuol, i'w lansio ganol 2023.

Y bwriad yw y bydd yr ardaloedd hyn yn darparu 4GW o ynni gwynt arnofiol ar y môr erbyn 2035 – gan sbarduno diwydiant yn y rhanbarth a darparu pŵer i bron i bedair miliwn o gartrefi. Mae map manwl wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r fethodoleg dewis safleoedd drafft, sydd ar gael i'w gweld yma.

Gan gydnabod agenda sero net uchelgeisiol y DU, a'r angen i ddatblygu technoleg a chadwyni cyflenwi cystadleuol, bydd Ystad y Goron yn tendro prosiectau mwy, ar raddfa 1GW, a allai gael eu datblygu drwy ddull graddol neu 'gam wrth gam'. Bwriad y dull hwn yw darparu rhagor o gyfleoedd i fuddsoddi yn y gadwyn gyflenwi a hwyluso cyd-drefniant seilwaith ategol. Mae Ystad y Goron wedi ymrwymo i weithio gyda rhanddeiliaid eraill ac ochr yn ochr â nhw i adeiladu cadwyn gyflenwi gref yn y rhanbarth, ac mae'n archwilio'r dewisiadau i helpu i ysgogi buddsoddiad. Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei rhannu dros y misoedd nesaf.

Bydd y rownd brydlesu hon yn cyfrannu'n allweddol at wireddu uchelgeisiau ynni gwyrdd yn y Môr Celtaidd. Mae ymchwil newydd, ar wahân, a gomisiynwyd gan Ystad y Goron yn dangos bod gan y Môr Celtaidd y potensial economaidd i ddarparu hyd at 20GW yn rhagor o gapasiti gwynt arnofiol ar y môr erbyn 2045.

Mae'r dull tendro arfaethedig hwn yn defnyddio'r profiadau o rowndiau prydlesu blaenorol i leihau amserlenni datblygu ac i leihau'r risg i ddatblygwyr, er enghraifft drwy ddwyn ymlaen yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel y cynllun cyn tendro i'r farchnad, a dechrau gwaith arolygu ar y môr. Ochr yn ochr â'r cyhoeddiad hwn, bydd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn dechrau ar sail yr Ardaloedd Chwilio. Bydd yn asesu effeithiau posibl y cynlluniau prydlesu hyn ar gynefinoedd gwerthfawr sy'n ffurfio rhwydwaith y DU o safleoedd â dynodiad amgylcheddol.

Bydd cyfle prydlesu'r Môr Celtaidd hefyd yn rhoi cyfle i ddatblygwyr ymgorffori arloesedd fel cynhyrchu hydrogen gwyrdd, gan ddefnyddio ynni adnewyddadwy o'r ffermydd gwynt arnofiol ar y môr, yn eu prosiectau.

Mae'r Ardaloedd Chwilio'n ystyried amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys llwybrau mordwyo, gweithgarwch pysgodfeydd, a sensitifrwydd amgylcheddol. Drwy gydbwyso'r rhain a ffactorau eraill, ac ymgorffori adborth gan randdeiliaid, mae'r Ardaloedd Chwilio wedi cael eu hasesu fel y lleoliadau

mwyaf ffafriol ar gyfer gwynt arnofiol ar y môr a’r rhai sydd fwyaf tebygol o fod yn ymarferol yn y tymor agos, gan gyflymu ynni domestig sicr.

Bydd Ystad y Goron yn parhau i wahodd sylwadau gan amrywiaeth o bartneriaid arbenigol ar bynciau allweddol dros y misoedd nesaf.

Yn amodol ar ganlyniad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel y cynllun, yn 2023 bydd Ystad y Goron yn cadarnhau hawliau gwely’r môr ar gyfer tri safle ‘Profi ac Arddangos’ ar wahân yn y Môr Celtaidd. Bydd y profiadau o’r datblygiadau hyn ar raddfa lai yn dylanwadu ar y broses o gyflwyno prosiectau mwy yn y Môr Celtaidd ac mewn mannau eraill.

**Dywedodd Nicola Clay, Pennaeth Mentrau Newydd yn y tîm Morol yn Ystad y Goron:**

*“Mae ein rhaglen bresennol yn canolbwyntio ar gyflawni’r 4GW arfaethedig o ynni gwynt arnofiol a byddwn yn mabwysiadu dull cam wrth gam, a fydd yn darparu gwersi pwysig ym mhob cam i gefnogi a galluogi’r sector i dyfu yn y dyfodol. Mae’n rhoi llwyfan gweladwy i gyflenwad hirdymor a fydd yn cefnogi buddsoddiad yn y gadwyn gyflenwi a’r seilwaith rhanbarthol, yn cyfrannu’n sylweddol at ddiogelwch ynni’r DU, ac yn helpu prosiectau yn y Môr Celtaidd i gyrraedd graddfa lle gallan nhw fod yn fwy cystadleuol o ran cost.*

*“Wrth inni fynd ati i fireinio’r ardaloedd chwilio a bwrw ymlaen â’r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, byddwn yn parhau i gydweithio â’r llywodraeth a rhanddeiliaid allweddol eraill i gyflymu’r ddarpariaeth, a chreu ffyniant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol parhaol i’r wlad.”*

**Yn ôl Huub den Rooijen, Rheolwr Gyfarwyddwr y tîm Morol yn Ystad y Goron:**

*“Mae gan y Môr Celtaidd y potensial i fod yn un o brif fasnau ynni adnewyddadwy’r byd, gan sicrhau twf economaidd a digonedd o ynni glân. Cam cyntaf yw’r rownd brydlesu yma ac mae angen inni gydweithio i leihau costau technoleg, darparu atebion amgylcheddol gadarn, a pharchu anghenion y nifer helaeth sy’n defnyddio’r ardal forol yma hefyd.”*

**Dywedodd Greg Hands, y Gweinidog Ynni a Newid Hinsawdd:**

*“Ni yw’r defnyddwyr mwyaf o wynt ar y môr yn Ewrop eisoes, a thechnoleg arnofiol yw’r elfen allweddol i ddatgloi llawn botensial ein morlin.*

*“Rydyn ni’n awyddus i gyflawni hyd at 5GW o wynt arnofiol ar y môr erbyn 2030. Gall y prosiectau hyn helpu i bweru miliynau o gartrefi ag ynni adnewyddadwy glân a rhatach, gan leihau’r ddibyniaeth ar danwyddau ffosil drud.”*

**Ychwanegodd Julie James, y Gweinidog dros y Newid yn yr Hinsawdd:**

*"Mae ein cefnogaeth i dechnolegau ac arloesedd newydd, gan gynnwys ynni morol, wrth wraidd ein [Rhaglen Lywodraethu](#).*

*"Yn y tymor byr, credwn y bydd gwynt ar y môr yn darparu cyfleoedd adfywio economaidd a chymdeithasol gwych. Awgryma'r gwaith hyd yma y gallai hyd at 1,400 o swyddi cyfwerth ag amser llawn gael eu cynnal gan 500 MW o brosiectau gwynt ar y môr arnaofiol. Er mwyn datgloi cyfleoedd cyflogaeth gwerth uchel ychwanegol, mae angen buddsoddiad ychwanegol arnom yn seilwaith porthladdoedd Cymru a'n sylfaen weithgynhyrchu i gynnig ateb o'r dechrau i'r diwedd i ddatblygwyr.*

*Rydym wedi bod yn gweithio gyda gweithredwyr porthladdoedd a'r diwydiant i annog cydweithio strategol sy'n manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael i'n heconomi.*

*"Drwy nodi eu tystiolaeth ar botensial hirdymor y Môr Celtaidd, mae Ystadau'r Goron wedi rhoi mwy o sicrwydd i fuddsoddwyr. Mae gennym uchelgeisiau eithriadol o uchel a byddwn yn parhau i weithio gydag Ystâd y Goron a Llywodraeth y DU i sicrhau bod manteision economaidd i Gymru yn parhau i ddeillio o'r sector cyffrous a hanfodol hwn."*

I gael rhagor o wybodaeth am waith Ystad y Goron ar brosiectau gwynt arnofiol yn y Môr Celtaidd, ewch i: www.thecrownestate.co.uk/en-gb/what-we-do/on-the-seabed/energy/floating-offshore-wind/.

I gofrestru i gael y wybodaeth ddiweddaraf am brosesau prydlesu a thrwyddedu ar y môr newydd, ewch i:
www.thecrownestate.co.uk/en-gb/what-we-do/on-the-seabed/registration-for-new-offshore-leasinglicensing-processes/

**DIWEDD**

**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: pressoffice@thecrownestate.co.uk**

## Nodiadau i olygyddion:

***Cyfleoedd gwynt arnofiol***

Mae'r DU yn arweinydd byd-eang o ran defnyddio gwynt ar y môr a gwynt arnofiol yw'r tir newydd i'w dorri yn y stori twf gwyrdd hon. Fel rhan o Strategaeth Diogelwch Ynni Prydain, gosododd Llywodraeth y DU uchelgais newydd o ddarparu hyd at 5GW o wynt arnofiol ar y môr erbyn 2030, gan ddisgwyl ehangu'n gyflym wedi hynny. Mae hefyd wedi cynyddu ei tharged ar gyfer capasiti hydrogen gwyrdd, a hynny i 10GW o'r targed blaenorol o 5GW.

Felly, mae datblygu gwynt arnofiol yn y Môr Celtaidd – y dyfroedd yn y rhanbarth o amgylch arfordir de Cymru a phenrhyn y de-orllewin – yn garreg filltir i'r sector. Bydd yn datgloi hyd at 4GW o gapasiti ynni glân newydd yng Nghymru a Lloegr erbyn 2035, gan ddarparu'r sylfaen i ehangu ymhellach a helpu i sefydlu sector diwydiannol newydd yn y DU, yn ogystal â gwarchod yr amgylchedd morol. Cafodd ein syniadau ar ein dull gweithredu eu hamlinellu yn ein papur sefyllfa ar y Rhaglen Gwynt Arnofiol yn y Môr Celtaidd ym mis Tachwedd 2021.

Gellir lleoli tyrbinau gwynt arnofiol yn bellach draw ar y môr na rhai sefydlog, lle gallant elwa ar wyntoedd mwy pwerus a chadarn.

Bydd y broses brydlesu'n cyflawni digon o gapasiti newydd i ddarparu ynni glân i bron i bedair miliwn yn rhagor o gartrefi i gefnogi targed sero net y DU, yn ogystal â chreu cyfleoedd ar gyfer buddsoddiad newydd, sylweddol mewn swyddi, sgiliau a seilwaith.

Nid oedd yr ymchwil ar wahân y sonnir amdano yn y datganiad hwn i'r wasg yn rhan o'r dadansoddiad gofodol ac nid yw'n rhan o'r rhaglen brydlesu hon, ond mae'n edrych ar y cyfleoedd yn y dyfodol o ran yr economi a chadwyni cyflenwi. Bydd yn cael ei rannu cyn gynted â phosibl.

Mae'r tri safle 'Profi ac Arddangos' y sonnir amdanynt yn y datganiad hwn i'r wasg wedi'u disgrifio yma.

***Ystad y Goron***

Mae Ystad y Goron yn fusnes unigryw â phortffolio amrywiol sy'n ymestyn ar hyd a lled y wlad. Rydym yn rheoli ein hasedau i gyd-fynd â'n pwrpas: creu ffyniant parhaol i bawb yn y wlad.

Fel rheolwyr gwely'r môr a hanner y blaendraeth o amgylch Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae Ystad y Goron wrth galon y gwaith o ddatblygu ynni gwynt oddi ar y môr yn y DU, gan helpu i lunio'r llwybr i newid cydbwysedd y ddarpariaeth ynni i ffwrdd o danwyddau ffosil a chyflawni ymrwymiad sero net y wlad. Rydym yn chwarae rôl allweddol yn galluogi diwydiant gwynt ar y môr y DU, yn ogystal â helpu i hwyluso datblygiad sectorau fel ceblau, piblinellau, Dal, Defnyddio a Storio Carbon, ac agregau morol.

Mae ein portffolio hefyd yn cynnwys: rhai o'r lleoedd gorau yn Llundain i weithio, siopa a chael profiadau; cyrchfannau manwerthu a hamdden rhanbarthol ar draws y wlad; portffolio gwledig sylweddol; ac Ystad Windsor, gan gynnwys Parc Mawr byd enwog Windsor.

Wedi ein sefydlu gan Ddeddf Seneddol, ein tasg yw cynhyrchu elw i Drysorlys EM er budd cyllid y wlad; mae hyn wedi bod yn gyfanswm o tua £3bn dros y deng mlynedd ddiwethaf.